Cyflwyno Safleoedd i'w Hystyried yn Fersiwn Diwygiedig Cynllun Datblygu Lleol Conwy (CDLl) i'w Archwilio gan y Cyhoedd

O 1 Gorffennaf 2010 ni fydd Gwasanaeth Polisi Cynllunio'r Cyngor yn derbyn safleoedd i'w hystyried yn y CDLl Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Y rheswm dros hyn yw i roi cyfle i staff y Gwasanaeth Polisi Cynllunio (ac adrannau eraill sy'n rhoi sylwadau ar safleoedd, fel yr Adran Briffyrdd a'r Adran Adfywio) ganolbwyntio ar baratoi cynllun ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, sydd i'w gynnal yn yr hydref.

Y tro nesaf y gallwch gyflwyno safleoedd i'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio yw pan gynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun, a byddant yn cael eu rhoi ar y gofrestr safleoedd eraill. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag amserlen y CDLl a manylion ynglŷn â sut rydym yn gwerthuso safleoedd a gyflwynwyd yn flaenorol, ewch i wefan y Cyngor: www.conwy.gov.uk/cdll

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi ffonio'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575180 / 575181 / 575124 / 575447